



Tomen y Mur © Keith O'Brien

Blodeuwedd

Merch hudolus a greodd y dewiniaid Gwydion ap Dôn a Math o flodau'r derw, banadl ac erwain, i fod yn wraig i Llew Llaw Gyffes yw **Blodeuwedd**. Ceir ei hanes ym *Mhedwaredd Gairc y Mabinogi*, sef Math fab Mathonwy.

Cynllwyniodd Blodeuwedd gyda'i chariad Gronw Pebr, arglwydd Penllyn, i ladd Llew, ac fel cosb cafodd hi ei throï yn dylluan gan Gwydion.

Crëwyd Blodeuwedd gan Gwydion a Math. Aeth i fyw gyda Llew Llaw Gyffes ym Mur Castell (safle caer Rufeinig Tomen Y Mur ger Trawsfynydd heddiw). Ymhen amser syrthiodd Blodeuwedd mewn cariad â Gronw Pebr, Arglwydd Penllyn a chynlluniodd y ddau sut i gael gwared â Llew. Gwyddai Blodeuwedd na ellid lladd Llew fel dyn cyffredin, a holodd ei gyfrinach gan gymryd arni ei bod yn poeni amdano. Dywedodd Llew wrthi na ellid ei ladd os nad oedd yn gyntaf wedi ymolchi mewn cafn â tho arno ar lan afon, ac wedyn yn sefyll ar un troed ar ymyl y cafn a'r llall ar gefn bwch, a'i tharo â gwaywffon. Roedd rhaid bod blwyddyn yn gwneuthur y waywffon a hynny adeg gwasanaeth y Sul yn unig.

Adroddodd Blodeuwedd y gyfrinach wrth Gronw a dechreuodd wneud y waywffon. Ymhen blwyddyn yr oedd popeth yn barod. Roedd Blodeuwedd,

Lleu a Gronw ar lan Afon Cynfal (ger Ffestiniog heddiw). Gofynnodd Blodeuwedd i Lleu ei hatgoffa sut y safai cyn y gellid ei ladd, a gwnaeth Lleu hyn heb wybod fod Gronw yn cuddio gerllaw.

Taflodd Gronw y waywffon at Lleu a throwyd ef yn eryr a chyda bloedd ofnadwy hedodd i ffwrdd. Yn fuan wedyn priodwyd Gronw Pebr a Blodeuwedd a phan glywodd Gwydion am hyn penderfynodd fynd i weld beth a ddigwyddodd i Lleu.

Gyda chymorth hwch daeth Gwydion o hyd i'w nai yn eistedd ar frigyn uchaf derwen. Meddylodd ar unwaith mai Lleu oedd yr eryr a dechreuodd adrodd englynion wrtho, sef Englyn Gwydion, nes iddo ddisgyn ar lin Gwydion. Yna trawodd yr aderyn â hudlath gan ddychwelyd Lleu Llaw Gyffes i'w ffurf ei hun, ond yn wael iawn ei wedd.

"Mynnaf ddial y cam a gefais," meddai Gwydion, ac aeth i chwilio am Blodeuwedd. Daliwyd hi wrth Lyn y Morynion a dywedodd Gwydion wrthi, "Ni chei dy ladd, ond cei dy droi yn aderyn ac oherwydd y cam a wnaethost â Lleu ni chei ddangos dy wyneb yn y dydd rhag ofn yr holl adar eraill. Ni cholli dy enw, gelwir di byth yn Blodeuwedd."

A chyda hynny trowyd Blodeuwedd yn dylluan. Bu'n rhaid i Gronw Pebr sefyll fel y gwnaeth Lleu ar lan Afon Cynfal a lladdwyd ef gan Lleu â gwaywffon. Mae carreg a thwll ynddi ar lan yr afon yn dwyn yr enw **Llech Gronw**.